**CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL**

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Nos Fawrth 18 Ebrill 2023**

**Presennol:** Cynghorydd Siân Enfys Jones – Cadeirydd.
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gordon Owen, Lowri Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: - Ken Taylor - Cynghorydd Sir.
Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwilym O. Jones.

**2. Datganiad o Ddiddordeb** – cafwyd datganiadau o ddiddordeb personnol fel a ganlyn: Cyng. K. Taylor - materion cynllunio.

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd bod cofnodion 21 Mawrth 2023 yn gywir (Cynig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Einir Thomas.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Roedd y Cynghorydd Furlong wedi gosod yr ail fainc picnic. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 6pm 20fed Ebrill i archwilio'r meinciau ayyb – Cyng. Celfyn Furlong ac Einir Thomas am fynychu hwn. Gofynnodd Cyng. Gareth Thomas am y posibilrwydd o osod rhwyd bêl-droed yno - cytunwyd i edrych ar hyn.

4.2 Diffibriliwr – Roedd y Cynghorydd G.O. Jones yn dal i ddelio â hwn.

4.3 Offer cyflenwi bagiau baw cŵn – Roedd y Cyng. Lowri Owen a Sharon Parry yn delio â hwn. Gofynnwyd i’r clerc brynnu bagiau ar eu cyfer.

4.4 Goleuadau Stryd a phalmentydd Lôn Minffordd – Roedd CSYM yn dal i edrych â'r cais am wybodaeth am oleuadau'r stryd. Gofynnwyd i'r clerc hysbysu’r Cyngor Sir bod mwy o gerrig wedi dod lawr ar y palmant.

4.5 Lloches Fws Treifan – Roedd y Cynghorydd Celfyn Furlong wedi trefnu bod y lloches bws yn cael ei drwsio.

**5. Penderfyniadau Cynllunio –** dim.

**6. Ceisiadau cynllunio**

6.1 **HHP/2023/10 Bryn y Gwynt, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer addasu ag ehangu’r garej bresennol – dim gwrthwynebiad.

6.2 **D56/2023/1 Tir yn Tŷ Mawr Farm, Valley**

Cais llawn ar gyfer rhoi hysbysiad ymlaen llaw i osod mast cyfathrebu o fath polyn telegraff 15 Metr, antenau, offer sydd wedi'i osod ar y ddaear ynghyd a datblygiad ategol - dim gwrthwynebiad.

**7. Materion ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd adroddiad ariannol y SCC ar gyfer y cyfnod rhwng 1.3.2023 a 31.3.2023 ynghyd â chysoniadau banc a datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

Cyfrif cyfredol £ 27,335.18, Cyfrif deposit £3,953.99

**8. Taliadau i'w gwneud:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Mawrth.) | £397.82 | GMS | £84 |
| Vision ICT | £182.86 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SCC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

9.1 Cofnodion: Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - bu llawer o bwyslais ar hyfforddiant i gynghorwyr yn y cyfarfod hwn – atgoffwyd y Cynghorwyr o'r angen i gadw at, a chwblhau eu cynlluniau hyfforddiant.

9.2 Datganiad: Ymgynghoriad newydd ar ddyfodol addysg (cau 18.5.2023)

9.3 Newyddlen y Pwyllgor Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned - wedi ei gylchredeg a'i drafod fel rhan o gynllun datblygu'r Cyngor.

9.4 Ymgynghoriad - Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg

9.5 Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn) | LLYW.CYMRU

9.6 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Mawrth 2023

**10. Adroddiadau Aelodau:**

10.1 Dywedwyd fod y gŵr a oedd wedi parcio croniad o gerbydau yng Nghaergeiliog wedi eu symud i'r Fali.

**11. Cyfarfod nesaf – 16 Mai 2023.**